

Adroddiad yr Ymchwiliad

Wrth i'r ymchwiliad ddod i ben, bydd y prif arolygydd yn gwneud trefniadau i wneud cyflwyniad preifat i'r teulu agos ynglŷn â chasgliadau'r MAIB. Yn ystod y cam hwn, bydd copi o'r adroddiad drafft yn cael ei basio ymlaen i'r teulu, ac fe'i gwahoddir i ystyried ei gynnwys ac i ddarparu adborth i'r Gangen. Bydd y Prif Arolygydd yn ystyried yr holl sylwadau yn ofalus, ac fe addasir yr adroddiad fel sy'n briodol cyn y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gall y broses ymgynghori gymryd hyd at 2 fis, ac yna anfonir yr adroddiad at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafndiaeth ac fe'i cyhoeddir. Mae adroddiadau pob ymchwiliad gan MAIB ar gael i'r cyhoedd, yn rhad ac am ddim, i unrhyw un sydd wedi gofyn amdanynt, a gellir eu darllen a'u lawrlwytho o wefan yr MAIB. Gellir cyflwyno adroddiadau'r MAIB mewn cwestau Crwneriaid ac ymchwiliadau damweiniau marwol, ond ni ellir eu cyflwyno mewn Llysoedd sydd â'r diben o bennu bai neu atebolrwydd.

Casgliad

Mae'r MAIB yn ymwybodol iawn o'r boen a achosir gan golli perthynas agos neu gyfaill mewn damwain forol. Mae'r Gangen yn ymroddedig i ddarparu adroddiadau trylwyr, proffesiynol ar achosion ac amgylchiadau damweiniau o'r fath gyn gynted â phosibl, gan hysbysu'r teulu agos o ddatblygiadau ar bob cam o'i ymchwiliad.

Diogelu Data

Mae'r MAIB yn cyflawni ei waith o dan ddarpariaethau Rheoliadau Llongau Masnachol (Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau) 2012. Mae'r Rheoliadau hyn, ac Adrannau 259, 260 a 267 o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 y gwnaed y Rheoliadau oddi tanynt, yn caniatáu i'r MAIB gael unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol i gynnal ei hymchwiliad.

Mae pŵer y MAIB i brosesu data personol yn cydymffurfio â darpariaethau Erthygl 6 1. (e) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) lle mae "prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol wedi'i freinio yn y rheolwr". Esbonnir hyn yn fanylach yn Adran 8 Ddeddf Diogelu Data 2018.

Mae'r MAIB yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a ddisgrifir uchod at ddibenion cynnal ei ymchwiliadau yn effeithlon. Diogelir y wybodaeth hon rhag cael ei rhyddhau gan adran 259 (12) o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 a darpariaethau Rheoliadau Llongau Masnachol (Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau) 2012 Rheoliad 13.

I ddarllen mwy ar sut mae GDPR yn effeithio ar y ffordd rydyn ni'n defnyddio ac yn storio'ch data, ewch i:

<https://www.gov.uk/government/organisations/marine-accident-investigation-branch/about/personal-information-charter>

Cymorth a Chyngor

Gall y sefydliadau canlynol gynnig cymorth a chyngor i'r perthynas agosaf:

Sefydliad	Rhif Ffon
Seafarer Support	+44 (0)800 121 4765
Fishermen's Mission	+44 (0)1489 566910
Mission to Seafarers	+44 (0)20 7248 5202
Shipwrecked Mariners' Society	+44 (0)1243 789329
Sailors' Society	+44 (0)23 8051 5950
Cruse Bereavement Care	+44 (0)808 808 1677
Stella Maris	+44 (0)20 7901 1931
International Seafarers' Welfare and Assistance Network	+44 (0)300 012 4279

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r MAIB neu am wybodaeth ar ddamweiniau penodol, cysylltwch â'r MAIB ar y cyfeiriad isod:

Marine Accident Investigation Branch

First Floor, Spring Place
105 Commercial Road

Southampton
SO15 1GH
United Kingdom

Ffôn: +44 (0)23 8039 5500
E-bost: iso@maib.gov.uk
Gwefan: www.gov.uk/maib

MAIB
MARINE ACCIDENT INVESTIGATION BRANCH

DAMWEINIAU MOROL MARWOL

GWYBODAETH I'R TEULU

A FFRINDIAU

Yn dilyn damwain forol a arweiniodd at golli bywyd, bydd nifer o gyrff swyddogol yn ceisio sefydlu beth a ddigwyddodd. Bydd yr heddlu, swyddogion y llywodraeth, cyfreithwyr, aseswyr yswiriant a syrfewyr morol oll yn gofyn cwestiynau tebyg, er o safbwyntiau gwahanol. Yn aml gall hyn beri dryswch i deulu a ffrindiau.

Mae'r daflen hon yn esbonio rôl Cangen Ymchwilio Damweiniau Morol (MAIB) y Deyrnas Unedig wrth ymchwilio i ddamweiniau morol, ac yn sefydlu sut fydd y Gangen yn cysylltu â theulu a ffrindiau'r rhai a gollwyd yn ystod ymchwiliad. Mae'n ceisio ateb nifer o gwestiynau cyffredin hefyd.

Marine Accident Investigation Branch (Cangen Ymchwilio Damweiniau Morol)

Sefydlwyd yr MAIB yn dilyn trychineb fferi gyrru mewn ac allan yr *Herald of Free Enterprise* yn 1987, gyda'r diben llwyr o ymchwilio i ddamweiniau morol gyda'r nod o wella diogelwch morol. Mae'r Gangen yn rhan annibynnol o'r Adran Drafndiaeth ac wedi ei lleoli yn Southampton.

Mae'r MAIB yn ymchwilio i bob math o ddamweiniau morol, i longau ac i bobl sy'n hwylio arnynt, i bennu eu hachosion ac amgylchiadau, ac i wneud argymhellion a fydd yn helpu lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto. Mae'n ofyniad i'r Gangen ymchwilio i bron i bob

damwain forol fasnachol sydd wedi arwain at farwolaeth, ac mae gan y Prif Arolygydd yr awdurdod i ymchwilio i ddamweiniau hamdden anfasnachol ble ystyrir fod yna wersi diogelwch pwysig i'w dysgu.

Nid yw'r MAIB yn dosrannu bai nac atebolrwydd. **Nid** yw'n awdurdod rheoleiddiol nac erlyn ac felly ni all ofodi ei argymhellion.

Pan fydd Damwain yn Digwydd

Yn dilyn damwain ar y môr, rhaid i berchennog y llong, ynghyd â'r uwch aelod o griw'r llong, adrodd ar y ddamwain i'r MAIB cyn gynted â phosibl, er y gall yr hysbysiad cyntaf ddod gan wylwr y glannau neu'r heddlu lleol.

Yr Asesiad Rhagarweiniol

Weithiau nid yw graddau llawn y ddamwain yn glir o'r adroddiadau cychwynnol. Dan amgylchiadau o'r fath, gall y gangen gynnal Asesiad Rhagarweiniol i gael rhagor o fanylion ac i benni a fodlonwyd y meini prawf i gyfiawnhau ymchwiliad pellach fyddai'n arwain at ddarparu adroddiad cyhoeddus. Os bydd y Prif Arolygydd yn penderfynu peidio bwrw ymlaen ag ymchwiliad, anfonir hysbysiad at yr holl bartïon sy'n gysylltiedig. Mae hyn fel arfer yn digwydd o fewn 3 wythnos i'r ddamwain.

Yr Ymchwiliad

Unwaith y gwneir y penderfyniad fod angen ymchwilio, bydd tîm o arolygwyr MAIB yn cael y dasg o gyflawni'r ymchwiliad. Mae ymchwilwyr yn unigolion cymwysedig iawn a hynod brofiadol o'r disgyblaethau morwrol, peirianeg forol, pensaerniaeth lyngesol a physgota. Er bod pob un yn cael hyfforddiant trylwyr ac yn gymwys i ymchwilio i ddamweiniau morol o unrhyw fath, byddant hefyd yn gwneud defnydd o wybodaeth arbenigwyr y diwydiant ble fo angen.

Mae pob ymchwiliad i ddamweiniau yn ceisio cael ateb i bedwar cwestiwn sylfaenol:

- ▶ *beth ddigwyddodd?*
- ▶ *sut wnaeth hyn ddigwydd?*
- ▶ *pam wnaeth hyn ddigwydd?*
- ▶ *beth ellir ei wneud i atal hyn rhag digwydd eto?*

Nid yw'r un ddau ymchwiliad fyth yr un fath, ac mae'n bosibl y bydd sawl ffurf wahanol i'r broses. Bydd ymchwilwyr fel arfer eisiau gweld llyfrau log, siartiau a dogfennau eraill a heb os byddant eisiau cyfweld y rhai a allai daflu goleuni ar beth a ddigwyddodd. Maent yn debygol o dynnu lluniau hefyd, profi tystiolaeth gorfforol, ac archwilio cofnodion cyfrifiadurol. Os yw'r llong yn cynnwys Cofnodydd Data Taith ('blwch du'), fe gesglir y data a'i archwilio.

Os bydd llong yn cael ei cholli ar y môr, tasg yr MAIB yw ceisio canfod pam. Weithiau, mae llongau sydd ar goll neu wedi suddo yn amhosibl i'w canfod. Fodd bynnag, os lleolwyd y llongddrylliad, ac os bydd yr amgylchiadau'n caniatáu ar gyfer hynny, bydd yr MAIB yn trefnu archwiliad tanddwr i geisio sefydlu'r rhesymau dros golli'r llong. Nid yw'r MAIB yn gyfrifol am adfer y cyrff, nac am farcio, codi na chael gwared ar y llongddrylliad, er mewn amgylchiadau arbennig gellir penderfynu codi'r llongddrylliad os yw hyn yn angenrheidiol i symud ymlaen â'r ymchwiliad. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr MAIB yn cysylltu â'r awdurdodau perthnasol i drefnu'r adferiad angenrheidiol. Trwy gydol unrhyw waith tanddwr, bydd yr arolygydd arweiniol yn ceisio hysbysu'r teulu a ffrindiau cyn i fwriadau'r Gangen ddod yn wybodaeth gyhoeddus.

Mewn termau cyffredinol iawn, mae'n cymryd rhwng 7 mis i flwyddyn i gwblhau ymchwiliad a chyhoeddi adroddiad. Gall hyn ymddangos i fod yn amser hir, ond efallai y bydd yn angenrheidiol i gyfweld ag ystod eang o unigolion, croesgyfeirio tystiolaeth, archwilio offer ac ymgynghori gydag arbenigwyr technegol. Yn aml, canfyddir bod y gwir achos dros ddamwain yn wahanol iawn i'r rhesymau a nodwyd yn y cyfnod yn union wedi'r trychineb.

Cyswllt gyda Theulu a Ffrindiau

Mae unrhyw ddamwain ar y môr neu mewn harbwr ble ceir achos o farwolaeth yn arwain at boen a dioddefaint. Mae'r goroeswyr, y teulu a'r gymuned yn goddef galar, colled a dryswch. Bydd ganddynt nifer o gwestiynau, ac ar ryw adeg byddant eisiau gwybod "beth ddigwyddodd" a "pham".

Mae hysbysu teulu a ffrindiau'r dioddefwyr am ffeithiau hysbys ymchwiliad o'r pwys mwyaf i'r MAIB. Yn gynnar yn ystod yr ymchwiliad, bydd yr arolygydd arweiniol yn cysylltu â'r teulu agos, naill ai'n uniongyrchol neu trwy Swyddog Cyswllt Teuluol yr heddlu, i sefydlu pwynt cyswllt i basio gwybodaeth ymlaen.

Fel arfer bydd yr arolygydd arweiniol yn trefnu i ymweld â'r teulu agos cyn gynted ag y bydd yn gyfleus, i'w hysbysu am yr ymchwiliad. Mae'r ymweliad hwn fel arfer yn gyfle i gyfnewid gwybodaeth yn ôl ac ymlaen, gan yn aml iawn bydd gan y teulu wybodaeth bwysig ynglŷn â'r ymadawedig neu amgylchiadau'r ddamwain y bydd angen i'r arolygwyr ei hystyried. Hefyd, mae'n bosibl y bydd yr arolygwyr angen gweld tystysgrifau pwysig neu ddogfennau proffesiynol eraill fyddai wedi eu cadw yn y cartref. Ni fydd hyn fyth yn hawdd i'r naill ochr na'r llall, ond bydd yr arolygwyr yn cysylltu â'r teulu bob tro cyn ymweld.

Wedi hynny, bydd yr arolygydd arweiniol yn darparu diweddariad i'r teulu yn rheolaidd, ond mae croeso i deuluoedd siarad â'r rhai sy'n cynnal yr ymchwiliad ar unrhyw adeg i gael gwybod am ei gynnydd.